**BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CONWY A SIR DDINBYCH**

Cofnodion cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Bodlondeb, Conwy, LL32 8DU, ddydd Mawrth, 18 Medi 2018 am 9.30 am.

**YN BRESENNOL**

Bethan Jones, (Cadeirydd) - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Y Cynghorydd Gareth Jones – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill (yn lle Hugh Evans) - Cyngor Sir Ddinbych
Dr Evan Moore - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Iwan Davies – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Judith Greenhalgh – Cyngor Sir Ddinbych
Siân Williams – Cyfoeth Naturiol Cymru
Simon Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr)
Helen Wilkinson – Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
Yr Uwcharolygydd Siân Beck – Heddlu Gogledd Cymru
Yr Uwcharolygydd Neil Harrison– Heddlu Gogledd Cymru
John Humphries (yn lle Sioned Rees) – Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru
Wendy Jones – Cefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy

**SWYDDOGION**

Nicola Kneale - Rheolwr Cynllunio Strategol (Cyngor Sir Ddinbych)
Fran Lewis - Rheolwr Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol (CBS Conwy)
Megan Vickery – Swyddog Ymgysylltu (BIPBC Canolog)
Angela Loftus – Rheolwr Cynllunio a Gwarchod Y Cyhoedd (Cyngor Sir Ddinbych)
James Harland - (Rheolwr Polisi Cynllunio Strategol) (CBS Conwy)
Shân Morris – Prif Swyddog Cynorthwyol (Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru)
Stephanie Jones – Gweinyddwr Pwyllgorau (Cyngor Sir Ddinbych)

## 1 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Andy Jones (Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol)
Gary Doherty - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Sioned Rees – Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru
Teresa Owen – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (Cynrychiolydd Iechyd Cyhoeddus Cymru)
Y Cynghorydd Hugh Evans – Aelod Arweiniol Cyngor Sir Ddinbych

## 2 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2018 i'w cymeradwyo.

***PENDERFYNWYD** y dylid cymeradwyo cofnodion cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2018.*

## 3 MATERION YN CODI

### a. Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

Tynnwyd sylw'r aelodau at y ffaith bod y llythyr atodedig wedi gofyn am adborth aelodau o ran rôl y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cadarnhawyd bod adolygiad o Fwrdd Rhan 9 wedi'i gynnal a bod adroddiad wedi'i drefnu ar gyfer cyfarfod nesaf y Prif Weithredwr.

Yn dilyn trafodaethau daeth y pwyllgor i'r casgliad i ohirio ymateb i lythyr Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru nes bod gwybodaeth o'r cyfarfod Grŵp Prif Weithredwr wedi'i derbyn.

***PENDERFYNWYD,*** *yn dilyn y cyfarfod Grŵp Prif Weithredwr i drafod adolygiad Rhan 9, aelodau i drafod y canlyniadau ac ymateb i lythyr Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.*

### b. Diweddariad Craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Cadarnhawyd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Ddinbych wedi derbyn ac archwilio'r cynnig am Gydbwyllgor Craffu. Amlygwyd mai cam nesaf y datblygiad oedd derbyn cymeradwyaeth ffurfiol gan Gyngor Llawn Conwy a Chyngor Llawn Sir Ddinbych. Yn dilyn y penderfyniad hwnnw, byddai'r materion ffurfiol o greu cydbwyllgor yn dechrau. Roedd disgwyl, pe bai'r trefniadau cyd-graffu yn cael eu cymeradwyo, y byddai'r pwyllgor yn cwrdd am y tro cyntaf yn y flwyddyn ariannol newydd.

### c. Dyddiad ar gyfer y Dyddiadur – Sesiwn Datblygu 'Byrddau Iechyd'

Rhoddodd Nicola Kneale (Cyngor Sir Ddinbych) wybod i'r aelodau mai'r dyddiad a gadarnhawyd ar gyfer gweithdy Academi Cymru oedd prynhawn dydd Llun, 28 Ionawr 2019.

Gofynnodd y Cadeirydd i aelodau ymgynghori â swyddogion a pharatoi barn a chwestiynau cyn y gweithdy.

## 4 ADRODDIAD 'FUTURES FOR WALES'

Cyflwynodd Fran Lewis - Rheolwr Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol (CBS Conwy), yr adroddiad ar 'Futures for Wales'.

Hysbyswyd yr aelodau bod yr adroddiad wedi'i gyhoeddi o'r blaen ac wedi cynnwys 14 argymhelliad a oedd wedi'u hanelu at y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Roedd yr adroddiad cryno yn cynnwys y cynllun hirdymor ar gyfer Cymru. Archwiliodd yr aelodau'r crynodeb gweithredol yn fanwl.

Eglurodd y Cadeirydd mai pwrpas yr adroddiad oedd hysbysu'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus o waith a fydd yn siapio Cymru yn y dyfodol. Mae'r sefyllfa bresennol yn ei gwneud yn anodd ystyried dyheadau'r dyfodol.

Roedd aelodau'n ddiolchgar iawn o'r adroddiad ac o'r farn bod gwybodaeth blaengynllunio yn bwysig. Pryder a fynegwyd gan yr aelodau oedd nad oedd enghreifftiau o'r hyn y gallai ddigwydd yn y dyfodol wedi'u cynnwys yn yr adroddiad os yw rhai agweddau'n newid. Teimlwyd y byddai hyn yn bwysig er mwyn cael dealltwriaeth gynhwysfawr.

Dywedodd Helen Wilkinson Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych y gallai sawl ffactor newid a dylanwadu ar y dyfodol a bod angen ystyried y ffactorau hyn a'u hymchwilio ymhellach. Gwirfoddolodd Helen Wilkinson, os oedd yr aelodau'n gytûn, i wneud gwaith ar gynllunio sefyllfaoedd ar gyfer y dyfodol ac adrodd ei chanfyddiadau yng nghyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol.

Diolchodd y Cadeirydd i Helen Wilkinson am y cynnig a chytunodd yr aelodau i'r gwaith arfaethedig ar gynllunio sefyllfaoedd ar gyfer y dyfodol.

***PENDERFYNWYD***

*i. y dylid derbyn y diweddariad a nodi'r cynnwys.*
*ii. cynnal gwaith pellach ar gynllunio sefyllfaoedd ar gyfer y dyfodol ac adrodd yn ôl mewn cyfarfod yn y dyfodol.*

**5 DIWEDDARIAD AR GYNNYDD BLAENORIAETHAU'R BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS**

Darparwyd diweddariad ar gynnydd y blaenoriaethau fel a ganlyn –

**i. Pobl –** Lles Meddyliol

Rhoddodd Siân Williams, Cyfoeth Naturiol Cymru, wybod i'r pwyllgor y byddai diweddariad, mewn perthynas â gweithdy sydd i ddod, yn cael ei roi yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Eglurwyd i aelodau bod heriau wedi codi wrth gysylltu ag asiantaethau ehangach am gymorth i gydlynu'r gweithdy.

**ii. Cymuned –** Grym Cymunedol

Rhoddodd Nicola Kneale (Cyngor Sir Ddinbych) wybod i aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus am y broses a ddilynwyd i ddatblygu'r camau nesaf yn y flaenoriaeth Grym Cymunedol. Cynhaliwyd gweithdy ym mis Mehefin gan Gyngor Sir Ddinbych gyda chefnogaeth gan Wasanaethau Gwirfoddol yng Nghonwy a Sir Ddinbych. Tywyswyd aelodau drwy adroddiad ac atodiadau (a ddosbarthwyd yn flaenorol) a chyfeiriwyd yn benodol at y 3 argymhelliad a oedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad

Ychwanegodd Judith Greenhalgh (Cyngor Sir Ddinbych) y byddai'r gwaith hwn yn ychwanegu gwerth at waith blaenoriaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus heb ddyblygu unrhyw waith sydd wedi'i gwblhau.

Trafododd yr aelodau'r effaith o ‘ragnodi cymdeithasol’ yn fanwl, a theimlwyd y byddai angen gwell dealltwriaeth o waith partneriaid ehangach yn y maes hwn i asesu sut y gallai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ychwanegu gwerth a chynnig cefnogaeth yn y maes hwn. Gofynnodd y Cadeirydd bod gwaith pellach yn cael ei wneud i gael trosolwg o ragnodi cymdeithasol yn y rhanbarth a nodi unrhyw drefniad llywodraethu sydd ar waith.

Cytunwyd gan aelodau bod llawer o waith wedi’i wneud ar Rymuso’r Gymuned. Diolchwyd i Nicola Kneale a Judith Greenhalgh (Cyngor Sir Ddinbych) am yr wybodaeth fanwl a ddarparwyd. Cytunwyd bod angen gwneud gwaith ac ymchwil pellach.

**iii.** **Lle –** Gwydnwch Amgylcheddol

Rhoddodd Fran Lewis (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) wybod i'r aelodau bod gweithdy wedi’i gynnal yn amlygu’r camau gweithredu arfaethedig ar gyfer darparu Gwydnwch Amgylcheddol. Arwain aelodau drwy Gynllun Cyflawni 2018/19 a’r syniadau a’r camau gweithredu a awgrymir. Daeth nifer o bobl i’r gweithdy ac fe gafwyd cyfraniadau gwerthfawr iawn. Mae angen gwneud gwaith pellach i ddatblygu perthynas waith gadarn gyda sefydliadau. Cadarnhaodd Fran Lewis bod angen gwneud gwaith ac ymchwil pellach a bod angen cyflwyno mwy o wybodaeth i’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, yn amlygu'r mesurau cyflawniad.

Trafododd yr aelodau yr angen i lobïo’r pryderon a godwyd i Lywodraeth Cymru ac aelodau lleol o’r Senedd i amlygu gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
Codwyd pryderon ynghylch amddiffynfa fôr ac isadeiledd, yn benodol o ran Hen Golwyn yn Sir Conwy. Cadarnhaodd y Cadeirydd bod angen i’r Fforwm Lleol Cymru Gydnerth ymchwilio i bryderon o ran isadeiledd a chwblhau asesiad risg er mwyn canatau i’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus drafod.

Diolchodd y Cadeirydd i’r holl swyddogion am eu gwaith hyd yma ar y blaenoriaethau a’r wybodaeth a ddarparwyd.

***PENDERFYNWYD*** *nodi cynnydd y blaenoriaethau a darparu gwybodaeth gefndirol a gwybodaeth bellach ar*

I. *Ragnodi cymdeithasol - cael trosolwg o ragnodi cymdeithasol yn y rhanbarth a nodi unrhyw drefniad llywodraethu sydd ar waith.*

II. *Cefndir i’r 3 argymhelliad Grymuso Cymunedol*

III. *Gwydnwch Amgylcheddol – cael mwy o wybodaeth ar yr amddiffynfeydd môr yn Hen Golwyn a chysylltu â’r Fforwm Lleol Cymru Gydnerth.*

Ar y pwynt hwn cytunodd yr aelodau i newid trefn yr adroddiadau er mwyn caniatáu ar gyfer siaradwyr gwadd.

## 6 TROSOLWG O GYNLLUNIAU DATBLYGU LLEOL AR GYFER CONWY A SIR DDINBYCH

Cyflwynodd James Harland (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) ac Angela Loftus (Cyngor Sir Ddinbych) y wybodaeth ddiweddaraf ar Gynlluniau Datblygu Lleol Conwy a Sir Ddinbych.

Eglurwyd i aelodau bod gan Gonwy a Sir Ddinbych ofyniad statudol i gael cynllun datblygu lleol. Roedd y ddau Gyngor ar y camau cyntaf o'u datblygu. Eglurodd James Harland y byddai cam cyntaf Conwy yn cynnwys ymgynghoriad tua diwedd 2018 i nodi unrhyw fater a pharatoi ar gyfer datblygiad pellach. Roedd angen i'r weledigaeth a'r amcanion fod yn unol â gofynion a pholisïau. Adleisiodd Angela Loftus yr uchod, gan bwysleisio proses hir a hynod reoledig y Cynllun Datblygu Lleol. Hysbyswyd yr aelodau bod grŵp Cynllunio Strategol wedi'i sefydlu yn Sir Ddinbych i fonitro gwaith.

Roedd Conwy a Sir Ddinbych wedi gofyn am dystiolaeth o safleoedd posibl i'w datblygu gan y cyhoedd. Roedd gwaith i hyrwyddo'r cais hwn wedi bod yn mynd rhagddo.

Cadarnhaodd James ac Angela y byddent yn parhau i hysbysu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o ran y datblygiadau drwy gydol y broses.

Codwyd sawl mater yn ystod y drafodaeth, gan gynnwys -

- Bydd blaenoriaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynnwys gofal dementia yn y gymuned – cadarnhawyd y byddai prosiectau cymunedol a phrosiectau ar gyfer pobl hŷn yn cael eu sefydlu a'u cynnwys yn y polisi cynllunio.
- Adwerthwyr bwyd brys - cadarnhaodd swyddogion bod canllaw cynllunio atodol wedi darparu gwybodaeth ar newid dosbarthiadau ar gyfer adwerthwyr bwyd. Bu'n anodd ei reoli gan fod newidiadau i ganiatâd cynllunio wedi'i gwneud yn haws i roi caniatâd.
- Bodelwyddan – Cadarnhawyd bod y safle o fewn y Cynllun Datblygu Lleol a bod caniatâd cynllunio wedi'i roi. Roedd y safle wedi bod yn gysylltiedig â'r Cynnig Twf ac roedd monitro wedi parhau.
- Meddygfeydd – cadarnhawyd eu bod yn cael trafferth cael gwybodaeth ar Feddygfeydd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am eu hamser ac am ateb y pryderon a godwyd gan aelodau. Cytunwyd y byddai diweddariad pellach yn cael ei roi ar adeg ddiweddarach o'u datblygu.

***PENDERFYNWYD***

*i. bod aelodau'n derbyn ac yn nodi'r diweddariad.*
*ii. bod amserlen y Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei dosbarthu i Aelodau.*

*iii. bod swyddogion y Cynllun Datblygu Lleol yn cysylltu â'r Cadeirydd ynglŷn â gwybodaeth ar Feddygfeydd.*

Ar y pwynt hwn (11.30 a.m.) cafwyd egwyl o 15 munud.

Ailddechreuodd y cyfarfod am 11.45 a.m.

**7 YMGORFFORI BLAENORIAETHAU/ GWAITH Y BGC MEWN SEFYDLIADAU AELOD**

Gofynnodd Fran Lewis (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) i aelodau gynorthwyo â'r gwaith o sefydlu blaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o fewn sefydliadau trydydd parti. Roedd cefnogi gwaith gan swyddogion ar y blaenoriaethau i adrodd yn ôl i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn allweddol.

Adleisiodd y Cadeirydd yr angen i bwysleisio blaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gyda swyddogion. Tynnwyd sylw at y ffaith mai cyfrifoldeb aelodau oedd adrodd yn ôl i swyddogion arbenigol ar weithredoedd pwyllgor y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i'w sefydlu o fewn moeseg gwaith dyddiol.

***PENDERFYNWYD** bod aelodau'n derbyn ac yn nodi'r diweddariad.*

**8 CYFLEOEDD CYLLIDO**

Cyflwynodd y Cadeirydd ddiweddariad ar lafar ar gyfleodd cyllid ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Atgoffwyd aelodau o'r drafodaeth flaenorol a gafwyd yn ystod y cyfarfod diwethaf ym mis Mehefin. Casglwyd y gwaith ymchwil i'r cyllid sydd ar gael tra bod gwaith yn parhau i gael ei archwilio.

Cadarnhaodd y Cadeirydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi'i gynnwys mewn cynllun peilot o gyllid hyblyg. Teimlwyd ei bod yn bwysig i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus dderbyn gwybodaeth o ran cynnydd y cynllun peilot.

Roedd trafodaethau â Llywodraeth Cymru o ran anhawster i sicrhau cyllid wedi parhau. Cytunwyd bod rhaid i'r gwaith ar flaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fod yn gost- effeithiol a bod rhaid darparu tystiolaeth i Lywodraeth Cymru o'r anawsterau a wynebwyd.

***PENDERFYNWYD** y dylid cofnodi'r pryderon cyllid a'u hadrodd yn ôl i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ddangos tystiolaeth o'r canfyddiadau i Lywodraeth Cymru. Gofynnodd yr aelodau a fyddai modd dosbarthu'r gwaith a oedd wedi'i gwblhau hyd yma ar y cyllid sydd ar gael ymhlith yr aelodau.*

**9 CYNLLUN IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL**

Fe wnaeth y Cadeirydd dywys yr aelodau drwy gyflwyniad o'r enw "Cymru Iachach". Dangosodd y cyflwyniad yr uchelgais i gyfuno gwasanaethu iechyd a gofal cymdeithasol. I ddiwallu anghenion unigolion mewn modd iach.

Roedd rhai o'r pwyntiau allweddol a amlygwyd i aelodau yn cynnwys:

- Rôl y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Adolygiad o'r trefniadau llywodraethu
- Cronfa Drawsnewid £100m y gall y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ei defnyddio i wneud cais am gyllid.

Pwysleisiodd y Cadeirydd yr angen i graffu ar flaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i arddangos yr angen am gyllid i greu achos busnes i anfon ymlaen wrth wneud cais am gyllid ychwanegol.

Bydd clystyrau o sefydliadau o fewn y gymuned yn cydweithio'n agosach â'i gilydd i gefnogi a darparu gwasanaeth gwell i unigolion. Pwysleisiodd y Cadeirydd bod nifer o glystyrau yn weithredol o fewn Conwy a Sir Ddinbych ar hyn o bryd, byddai'n rhaid gwneud gwaith i weithio'n agosach yn y dyfodol.

Codwyd sawl cwestiwn mewn perthynas â'r gronfa drawsnewid, gan gynnwys sut fyddai'r gronfa yn effeithio ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'i flaenoriaethau. Pwysleisiodd y Cadeirydd wrth yr aelodau bod angen monitro datblygiad y cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Diolchodd yr aelodau i'r Cadeirydd am y cyflwyniad a'r eglurhad manwl. Mynegwyd pryder gan yr aelodau o ran lefel yr adnoddau a staff o fewn Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Daethpwyd i'r casgliad y byddai trawsnewid yn golygu llawer iawn o waith a byddai'n rhaid iddo fod yn gadarn. Cytunwyd y byddai cyllid yng Nghymru yn gadarnhaol ac yn symud gwasanaethau yn eu blaenau yn sylweddol. Cytunwyd y byddai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn monitro ac yn adrodd yn ôl ar ddatblygiadau sylweddol i aelodau.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn, cofnodi a dosbarthu'r cyflwyniad a'r wybodaeth i aelodau. Dylai unrhyw ddatblygiad gael ei gyflwyno yng nghyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol.*

## 10 BLAENORIAETHAU INETRIM

### a. Y 1000 diwrnod cyntaf

Dim diweddariad ar hyn o bryd.

### b. Cyfathrebu

Rhoddodd Iwan Davies (CBSC) y wybodaeth ddiweddaraf i aelodau am y gwaith a oedd wedi'i wneud hyd yma o ran cyfathrebu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'i waith.

Codwyd y pwyntiau canlynol -

- Mae cyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus bellach yn agored i'r cyhoedd (ac eithrio eitemau ar y rhaglen sydd wedi'u heithrio).
- Caiff crynodeb o gyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ei ddosbarthu ar ffurf newyddlen i bob sefydliad.
- Caiff cofnodion eu dosbarthu i bob aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn iddynt eu trafod o fewn eu sefydliadau.
- Caiff negeseuon cyfryngau cymdeithasol rheolaidd eu trefnu ar gyfrifon Facebook a Twitter Sgwrs y Sir. Mae'r cyfrifon hefyd yn rhannu negeseuon sefydliadol perthnasol
- Mae'r gallu i weithio yn adeiladau ein gilydd bellach yn bosibl oherwydd Crwydro (yn amodol ar ddiogelwch).
- Nid oes unrhyw ddulliau ar y cyd pellach ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned wedi'u datblygu ers datblygiad cynllun llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Mae partneriaid yn agored i'r syniad o ganiatáu i staff o sefydliadau partner rannu desgiau o'u hadeiladau. Fodd bynnag, gwneir hyn ar sail achlysurol neu ar sail pob achos unigol.
- Nid yw'r rhan fwyaf o bartneriaid mewn sefyllfa i gynnig mynediad agored ar hyn o bryd – yn bennaf oherwydd cyfyngiadau gofod.

Daethpwyd i'r casgliad bod y cynnydd a oedd wedi'i wneud o ran cyfathrebu hyd yma yn dderbyniol.

Cytunodd yr aelodau ar yr angen i bwysleisio i aelodau a'r cyhoedd bod cyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn agored i'r cyhoedd ac estynnir gwahoddiad i bawb.

Dywedodd Nicola Kneale (Cyngor Sir Ddinbych) wrth y pwyllgor bod gweithdy ar gyfer Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned yn cael ei gynnig i dynnu sylw at waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus hyd yma a sefydlu sut/ lle y gallwn gydweithio yn y dyfodol.

***PENDERFYNWYD** bod aelodau'n derbyn ac yn nodi'r diweddariad.*

## 11 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i'w hystyried. Cadarnhaodd aelodau'r rhaglen ac adroddiadau a ddisgwyliwyd yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Rhagfyr 2018.

- Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Gynnig Twf Gogledd Cymru
- Gwaith ar Flaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Camau dilynol o gyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Rhanbarthol a Phapur Bwrdd Llywodraethu Rhan 9 (dyddiad i'w gadarnhau)

- Cyngor Conwy – y Wybodaeth Ddiweddaraf ar y Cynllun Corfforaethol
- Datblygu Cofrestr Risg

***PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r rhaglen waith.*

## 12 UNRHYW FATER ARALL

Dosbarthwyd adroddiad ar yr Archwiliad Ail-sefydlu Ieuenctid i'r aelodau er gwybodaeth.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:25 p.m.